

Ysgol Glanrafon



Croeso i'n Hysbysiad Preifatrwydd Data

Nodau

Nôd ein hysgol yw sicrhau bod yr holl ddata a gesglir am staff, disgyblion, rhieni ac ymwelwyr yn cael ei gasglu, ei storio a'i brosesu yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a ddaeth i rym ym mis Mai 2018.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddata, ni waeth a yw mewn papur neu fformat electronig.

Deddfwriaeth a chanllawiau

Mae'r polisi hwn yn bodloni gofynion GDPR, ac yn seiliedig ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa Gwybodaeth a hysbysiadau preifatrwydd model a gyhoeddwyd gan yr Adran Addysg.

Diffiniadau

| Term | Diffiniad |
|------------------------|--|
| Data Personol | Mae data y gellir adnabod person ohono, gan gynnwys data sydd, o'i gyfuno â gwybodaeth arall sydd ar gael yn rhwydd, yn arwain at adnabod person |
| Data personol sensitif | Data megis: <ul style="list-style-type: none">• Manylion cyswllt• Tarddiad hiliol neu ethnig• Barn wleidyddol• Credoau crefyddol, neu gredoau o natur debyg• Os yw person yn aelod o undeb llafur• Iechyd corfforol a meddyliol |

| | |
|------------------|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriadedd rhywiol • A yw person wedi ymrwymo, neu a honnir ei fod wedi ymrwymo, trosedd • Euogfarnau troseddol |
| Prosesu | Cael cofnodi neu ddal data |
| Gwrthrych y data | Y person y mae ei ddata personol yn cael ei gadw neu'i brosesu |
| Rheolwr Data | Person neu sefydliad sy'n penderfynnu arb a ddibenion, a'r modd y caiff data personol ei brosesu. |
| Prosesydd data | Person, heblaw un o weithwyr y rheolwr data, sy'n prosesu'r data ar ran y rheolwr data |

Y rheolwr data

Mae ein hysgol yn prosesu gwybodaeth bersonol yn ymwneud â disgyblion, staff ac ymwelwyr, ac, felly, yn rheolydd data.

Egwyddorion diogelu data

- prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw
- wedi'i gasglu at ddibenion penodedig, eglur a dilys ('cyfyngiad pwrrpasol');
- yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol
- cywir a, lle bo angen, wedi'i ddiweddarau'n gyfredol
- wedi'i gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod pynciau data am ddim mwy o amser nag sy'n angenrheidiol
- ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol

Swyddogaethau a chyfrifoldebau

Mae gan y bwrdd llywodraethu gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau. Y pennaeth, neu'r dirprwy bennaeth, sy'n gyfrifol o ddydd i ddydd. Bydd y pennaeth yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau diogelu data, ac yn goruchwyllo unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â storio neu brosesu data personol. Mae'n ofyniad cyfreithiol penodi Swyddog Diogelu Data annibynnol. Mae Debbie Jones Roberts wedi'i phenodi a gellir cysylltu â hi drwy e-bost postgfanrafon@hwbcymru.net

Mae staff yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn casglu ac yn storio unrhyw ddata personol yn unol â'r polisi hwn.

Hysbysiad Preifatrwydd/Prosesu Teg

Disgyblion a rhieni

Rydym yn cadw data personol am ddisgyblion i gefnogi addysgu a dysgu, i ddarparu gofal bugeiliol ac i asesu sut mae'r ysgol yn perfformio. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn derbyn data am ddisgyblion gan sefydliadau eraill gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ysgolion eraill, awdurdodau lleol a'r Adran Addysg.

- Mae'r data hwn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i:
- Manylion cyswllt
- Canlyniadau asesiadau mewnol a phrofion a osodir yn allanol
- Data ar nodweddion disgyblion, megis grŵp ethnig neu anghenion addysgol arbennig
- Gwybodaeth am waharddiad
- Manylion unrhyw gyflyrau meddygol

Byddwn ond yn cadw'r data a gasglwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i fodloni'r diben y'i casglwyd ar ei gyfer.

Ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion gydag unrhyw un heb ganiatâd oni bai bod y gyfraith a'n polisiau yn caniatáu i ni wneud hynny. Dylai unigolion sy'n dymuno derbyn copi o'r wybodaeth sydd gennym amdanynt/eu plentyn wneud cais ysgrifenedig i'r Pennaeth. Mae'n ofynnol inni, yn ôl y gyfraith, drosglwyddo gwybodaeth benodol am ddisgyblion i gyrff allanol penodedig, megis ein hawdurdod lleol a'r Adran Addysg, fel eu bod yn gallu bodloni eu rhwymedigaethau statudol.

Eich hawliau

1. Eich hawl i gael mynediad - Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol
2. Eich hawl i gywiro - Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol rydych chi'n credu sy'n anghywir. Mae gennych hefyd yr hawl i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth rydych chi'n meddwl sy'n anghyflawn
3. Eich hawl i ddileu - Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau
4. Eich hawl i gyfyngu ar brosesu - Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau
5. Yr hawl i wrthwynebu prosesu - Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol mewn rhai amgylchiadau
6. Eich hawl i gludadwyedd data - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol a roesoich i sefydliad arall, neu i chi, mewn rhai amgylchiadau.

Nid oes rhaid i chi dalu unrhyw dâl am arfer eich hawliau. Os byddwch yn gwneud cais, mae gennym un mis i ymateb i chi.

Cysylltwch â ni yn post@glanrafon@hwbcymru.net os ydych am wneud cais.

Storio a diogelu data

Mae cofnodion papur, cofnodion digidol a dyfeisiau electronig cludadwy, fel gliniaduron a gyriannau caled sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, yn cydymffurfio â GDPR ac yn cael eu hasesu'n rheolaidd gan ein DPO. Mae gweithdrefnau dinistrio ac archifo Data Personol hefyd yn cyd-fynd â GDPR.

Os teimlwch fod Ysgol Glanrafon wedi cam-drin eich data personol chi neu eich plentyn ar unrhyw adeg gallwch wneud cwyn i'r Pennaeth drwy e-bostio prifglanrafon@hwbcymru.net neu drwy ffonio 01352 700384.

Fel arall, gallwch gysylltu â'n DPO i wneud cwyn, sarah.webb@e2e-education.co.uk neu cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan (<https://ico.org.uk/make-a-complaint/>) neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.